Ffurflen E2

(Datganiad ariannol i amrywio gorchymyn rhwymedi ariannol, ar wahân i amrywiad i orchymyn am daliadau cyfnodol i gael taliad cyfalaf)

Nodiadau canllaw

Yng**lŷ**n â'r canllawiau hyn

- Maent yn dweud wrthych pryd y dylech ddefnyddio Ffurflen E2
- Maent yn esbonio rhai o'r termau a ddefnyddir yn Ffurflen E2, sydd o bosibl yn anghyfarwydd i chi
- Mae'r nodiadau pwysicaf mewn print bras. Peidiwch â'u hanwybyddu
- Hefyd, mae rhestr atgoffa yn Ffurflen E2 sy'n dweud wrthych pa ddogfennau y bydd angen i chi eu cynnwys gyda'r ffurflen.

Canllaw yn unig yw'r nodiadau hyn. Os bydd angen rhagor o help arnoch chi, dylech siarad â chyfreithiwr, Canolfan Cyngor Ar Bopeth, canolfan cyngor cyfreithiol neu ganolfan y gyfraith. Efallai y byddwch yn gallu cael cyngor cyfreithiol yn rhad ac am ddim. Am ragor o wybodaeth, ewch ar-lein i www.gov.uk/legal-aid.

Cofiwch, er bydd staff y llys yn gallu helpu gyda materion trefniadol, ni allant roi unrhyw gyngor cyfreithiol i chi.

Cyflwyniad

Mae'n rhaid i chi a'ch priod (cyn briod) neu bartner (cyn bartner) sifil lenwi Ffurflen E2 ar wahân.

Dylech ond llenwi Ffurflen E2 os ydych chi neu eich (cyn) priod neu bartner sifil wedi gwneud cais i amrywio gorchymyn rhwymedi ariannol, oni bai am amrywiad i orchymyn am daliadau cyfnodol i gael un taliad cyfalaf. Golyga hyn y dylech ddefnyddio Ffurflen E2 os ydych chi neu eich (cyn) briod neu bartner sifil yn gwneud cais i amrywio gorchymyn rhwymedi ariannol, ond ni ddylech ddefnyddio Ffurflen E2 os ydych yn gwneud cais i amrywio gorchymyn am daliadau cyfnodol pan fo'r ceisydd yn gwneud cais i ddiddymu'r gorchymyn taliadau cyfnodol (ar unwaith neu fel arall) a'i gyfnewid am un neu fwy o'r canlynol:
gorchymyn lwmp swm, gorchymyn ad-drefnu perchnogaeth eiddo, gorchymyn rhannu pensiwn neu orchymyn rhannu iawndal pensiwn . Dylech lenwi Ffurflen E ar gyfer y math hwnnw o gais.

Diben Ffurflen E2 yw eich helpu i roi manylion llawn eich trefniadau ariannol i'r llys.

Rhaid i chi anfon eich Ffurflen E2 wedi'i llenwi i'r llys a rhoi copi i'r unigolyn arall ar yr un pryd, ddim hwyrach na 21 diwrnod ar ôl dyddiad cychwyn y cais.

Gall y llys wneud gorchymyn am gostau yn eich erbyn os nad ydych yn cadw at y terfynau amser ar gyfer ffeilio Ffurflen E2.

Os ydych chi a'r unigolyn arall wedi cytuno ar y materion ariannol sydd wedi'u cynnwys yn y cais, yna nid oes angen i'r un ohonoch lenwi Ffurflen E2. Dylech gyflwyno eich cytundeb (a elwir weithiau'n gais cydsynio) i'r llys cyn y gwrandawiad cyntaf.

Dylech sicrhau eich bod yn atodi unrhyw ddogfennau sy'n berthnasol i'r cais hwn i Ffurflen E2.

© Hawlfraint y Goron 2023

Adran 2 (dibynyddion): Mae angen i chi ddarparu manylion y swm o gynhaliaeth yr ydych yn ei dalu am blant nad ydynt yn byw gyda chi. Mae hyn yn cynnwys unrhyw asesiadau'r Asiantaeth Cynnal Plant/Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant, cytundebau ariannol neu orchmynion llys sy'n ymwneud â chynhaliaeth ar gyfer eich plant.

Adran 3 (gorchymyn blaenorol): dylech nodi pa ran o'r gorchymyn blaenorol a wnaed yr ydych yn gwneud cais i'w amrywio a pha fath o newidiadau yr ydych yn gofyn i'r llys eu gwneud.

Adran 13 (gorchmynion a geisir): Efallai yr hoffech gael cyngor cyfreithiol cyn ateb y cwestiwn hwn.

Datganiad Gwirionedd bod yr wybodaeth a roesoch yn Ffurflen E2 yn wir
Rhaid llenwi'r adran hon. Rhaid ichi gadarnhau bod yr wybodaeth a roesoch yn datgelu'n llawn, yn ddidwyll, yn glir ac yn gywir eich amgylchiadau ariannol ac amgylchiadau perthnasol eraill.

Rhestr o ddogfennau i gyd-fynd â Ffurflen E2
A chithau bellach wedi gorffen llenwi Ffurflen E2, gwnewch yn siŵr bod copïau o'r eitemau sydd yn y rhestr atgoffa sy'n berthnasol i'ch cais, wedi'u hatodi.

Peidiwch â chynnwys dogfennau gwreiddiol, ond yn hytrach sicrhewch eu bod ar gael ar gyfer eu harchwilio gan y parti arall a'r llys.

Os na allwch atodi copïau o ddogfennau i Ffurflen E2 pan fyddwch yn ei ffeilio, rhaid i chi gynnwys nodyn byr gyda Ffurflen E2 yn esbonio pam nad oedd modd i chi eu cynnwys.

Sylwch os gwelwch yn dda – rhaid i chi gadarnhau bod unrhyw gopïau o ddogfennau y dymunwch eu hatodi i Ffurflen E yn arddangosyn neu'n atodiad i Ffurflen E2.